8.42

# CAN

O

# GOFFADWRIAETH

AM

# Y PARCH. JOHN WILLIAMS,


*CENADWR CYMDEITHAS GENADOL LLUNDAIN,*

I FOR Y DEAU,

YR HWN A LADDWYD YN YNYS ERROMANGA,

Tachwedd 20fed, 1839.

GAN W. E. JONES, CAWRDAF.



CENAD HEDD.

*CAERFYRDDIN:*

ARGRAFFWYD GAN JOSIAH THOMAS JONES.

X2049 78369

COFFADWRIAETH

AM

# Y PARCH. JOHN WILLIAMS.

---

1. Ceisiaf godi hardd gof-adail,
   Cofio'r un a gofiodd Iôr,
   Un a daenodd hedd, fel mantell,
   Dros derfynau'r Deau For;
   Dygodd lewyrch Haul Cyfiawnder
   I drigolion machlud haul;
   Du-felynion gân am hyny
   Dros ryw oesau rif y dail.

2. Llawenycha ddinas Llundain,
   Eni ynot ddyn mor fawr;
   Perlyn euraidd, etholedig,
   A'i ddysgleirdeb fel y wawr:
   Dyma'r angel welodd Ioan
   Yn eangder nefoedd Iôr,
   A'r Efengyl fawr dragwyddol
   Yn ehedeg dros y mor.

3. Ti Gymdeithas fawr Genadol,
   Osodwyd ar dragwyddol sail,
   Gardd ddewisol Pren y Bywyd,
   Lle mae'n tyfu 'r bywiol ddail,
   Gorfoledda yn dy lwyddiant
   A dy fendigedig waith,
   Mil o filoedd gân am dano
   Pan ddarfyddo'r ddaear faith.

4. Canu'n iach â'i wlad enedig
   Wnaeth y bendigedig wr,
   Gadael Brydain a'i mwynderau
   I hwylio'n bell dros donau'r dwr;
   Moriodd trwy'r tymhestloedd trymaf
   I'r fro bellaf yn y byd,
   At y bobl oedd yn trengu,
   Yno i draethu'r cariad drud.

5. Clywodd Deau Cymru Newydd
Ei leferydd mwynol ef,
Yn cyhoeddi rhad Waredwr,
Fel Cenadwr dros y nef;
I alltudion gwrthodedig,
Aeth a chynnyg am iachâd
I rai dan gadwynau'n gaethion
Ddod yn rhyddion oll yn rhad.

6. Wele'n codi haulwen olau
Ar derfynau'r Deau Fyd,
Dydd yn gwenu ar baganiaid,
Fu mewn caddug enaid cyd,
Dacw'n llwythog nef drysorau
Mewn rhyw lestr brau o bridd,
A thywyllwch nos paganiaeth
Yna ddaeth yn oleu ddydd.

7. Hen anialwch droes yn olau,
Duwiau gau er borau'r byd,
Gyda'u creulonderau anferth,
Wnaent yn goelcerth fawr i gyd;
Gan fyrddiynau, oedd baganol,
Aberth dynol mwy nid oes,
Ond ymbwyso ar y Sylfaen
A fu'n gruddfan dan y groes.

8. Ynys Raiatea fwynlan
Oedd ei winllan, maes ei waith,
Mae yno eto, 'n drist am dano,
Fil yn cofio 'i enwog iaith;
Ynys gafodd yn farbaraidd,
Wnaeth yn baradwysaidd dir,
A chyfododd gannoedd eofn
Yno'n golofn fawr i'r gwir.

9. Llawn o fwynol fywiol fywyd
Oedd ei ysbryd eang ef,
Hiraethai yn ei enaid beunydd
Am daenu newydd doniau nef;

Aeth i chwilio am ynysoedd
A lechent yn y moroedd maith;
Wedi eu cael y dysgai'n rhyfedd
Er anrhydedd mawr eu hiaith.

10. Wedi hir a blin fordwyad,
I lanau Rarotonga daeth,
Pryd y canfu bob trigiannydd
Dan y gorchudd yno'n gaeth,
Miloedd noethion i foncyffion
Yn aberthu dynion byw,
Lle nad oedd na threfn na theimlad,
Nac addoliad i'r gwir Dduw.

11. Er na welodd neb â'u llygad
Un Ewropiad yno 'rioed,
Ac na roddodd Cenad Iesu
Ar y d'rysni hwnw 'i droed,
Dacw Williams, y Cenadwr,
Yno'n gyntaf gwr i gyd,
Yn cyhoeddi 'r hwn o'i wirfodd
A aberthodd feiau'r byd.

12. Eu cyrff noethion a ddilladodd,
A'u heneidiau dodd â dysg,
Rhoes Efengyl fawr dragwyddol
Yn gymodol yn eu mysg,
Dygodd frenin a th'wysogion
Yno'n goron hardd y gair;
Rhif o honynt a gadd loches
Fry yn mynwes Baban Mair.

13. Yno mae yr hen Makea,
Yn y dyrfa fawr yn fyw,
Yn llon neithior y briodas,
Ar gynteddau dinas Duw;
Rhai gyfarfu uwch y ddaear
Yma, o bedwar cwr y byd
Yn cyweirio 'u haur delynau
Ar derfynau y gwyn fyd.

14. Llong a'i law ei hun a luniodd,
Ac a'i henwodd CENAD HEDD,
Hon a lwythodd âg Athrawon
O'r trigolion du eu gwedd,
Ynddi i Samoa hwyliai,
Lle y cafodd fintai fawr
O baganiaid erchyll dywyll
Heb un ganwyll ar eu gwawr.

15. Gwerth ei einioes ni chyfrifodd,
Ac anturiodd ef i'w tir,
Gan yn eofn dystiolaethu
A phregethu'r enwog wir;
Cafodd yno berlau addas
Fydd yn urddas teyrnas dydd,
Pan fo daear yn dân ysol,
Trwy effeithiol fywiol ffydd.

16. Fflamiau dinystr yn ymledu,
Welai ar yr ochr draw,
Creulon farch carlamawg rhyfel,
Yn gweryru och a braw,
Holl drigfanau plant a gweinion,
Gyda'r dynion yn fflam dân,
A'r lladdedig hyd y meusydd,
Wedi eu dryllio yn ddarnau mân.

17. Gweinidogion Hedd Efengyl
Ar Samoa, ar un llaw,
Rhyfel tanllyd yn ymrwygo
Ar Upolu, 'r ochr draw;
Ond gorphwysai 'r anwyl Williams
Ar gynnorthwy'r Gallu Mawr,
Gwyddai fod ei fraich yn ddigon
I roi rhyfel blin i lawr.

18. Fel Gweinidog Brenin Heddwch,
Cyhoeddi wnaeth y newydd da,
Gydag esgyn dwys-erfyniad
Am attaliad ar eu pla;

A'r peth fethwyd fil o oesau,
Sef datgloi eu rhwymau'n rhydd,
A'u dwyn yn waraidd a heddychol,
Wnaeth Efengyl mewn un dydd.

19. Eu heilun-dduwiau ae'n ysgyrion,
Fel 'raeth dagon o flaen Duw;
Wedi chwilio maen a phreniau,
Ni chaufyddent un yn fyw;
Ac i'w gwneyd yn ddeiliaid cymhwys,
Effeithiau glwys yr Ysbryd Glan
A ddisgynodd arnynt felly,
Yno i'w dysgu â'i nefol dan.

20. O! 'r gorfoledd lenwai fynwes
Y Cenadwr heb ei ail
Pan ddychwelodd ef i Frydain
O derfynau machlud haul,
Gorfoleddai'r da-newyddion,
Holl drigolion Brydain Fawr,
Rhai oedd ddiffrwyth wedi methu
Welai 'n adnewyddu'n awr.

21. A'r newyddion draethai Williams
Wnai y deyrnas fel ar dan,
A gosododd ei bregethau
Yn ei genau newydd gan;—
Rhoddwyd iddo long Genadol
At ei fordaith fawr drachefn,
Ac ar fab, a hoff gyfeillion,
Y tro olaf troes ei gefn.

22. Anwyl oedd ei wlad ei hunan,
A'i gyfeillion hoff yn Nghrist,
O'i flaen 'r oedd miloedd o beryglon,
Eto, 'i enaid nid oedd drist;
Dweyd i bagan am Waredwr,
Mewn ynysoedd tywyll pell,
Oedd hyfrydwch pena'i enaid,
A chyhoeddi 'r ardal well.

23. Dros y moroedd mawr tymhestlog
Eilwaith aeth i For y De;
A phum mil o Destamentau
Bendigedig air y ne;
Rhoes y rhai'n mewn llu ynysoedd,
I'r eglwysi blanodd gynt;
Ac aeth ymaith i Samoa,
Yn y Camden ar ei hynt.

24. Ei fwriad mawr oedd dwyn Efengyl
At yr Hebrides Newydd draw;
Ond rhaid oedd ei fyned yno,
Fel a'i einioes yn ei law;—
Yn ei gartref yn Upolu,
Diwyd fu am enyd fach;
Ac yn drist â gwraig ei fynwes,
Ar hanner nos, y canai'n iach.

25. Pan gyrhaeddodd ynys Tanna,
Ca'dd dderbyniad gwresog iawn,
Rhoddodd iddynt dri athrawon,
I'w haddysgu, 'r un prydnawn;
Troes oddiyno i Erromanga,
Enw a melldith arno byth,
Enw a gofir gyda galar
Gan bob Cristion tra bo chwyth.

26. Ar ei glanau hallt llofruddiog,
Bron ar hanner dydd ei daith,
Cadd Apostol Mawr y Deau,
Roddi heibio 'i ddiwrnod gwaith,
Dan y clybiau trwm, a'r ceryg,
Roi llofruddion ar ei ben:—
Yn nghymdeithas euraidd engyl,
Adref aeth i'r ddinas wen.

27. Er i frwnt baganiaid erchyll
Wledda'n greulon ar ei gnawd,
Ar ryw foreu eto cesglir
Pob mân fymryn, gan ei frawd;

Ac ni chaiff y gronyn lleiaf
Aros yno byth ar goll,
Pan yn debyg i gorff Iesu
Ymddysgleiria'n berffaith oll.

28. Aeth rhyfel-long enwog Lloegr
I gyrchu ei weddillion gwael,
Ac, er gofid, dyna'r cyfan,
Oedd ei esgyrn, allent gael,
Dygwyd hyny i Upolu,
Lle mae yn gorphwyso'n awr,
Ar un o feusydd hoff ei lafur
Ag y dygodd nefol wawr.

29. Galar dodd drigolion Brydain,
Ag ynysoedd Mor y De:—
Duw gyfodo un i'w enw,
Fyddo'n loyw yn ei le,
A gysuro 'i enwog briod,
Fu mor enwog yn ei waith,
Ac mor ddiwyd hir flynyddoedd,
Dros y moroedd dymor maith.

30. Rhwygodd Williams, bron yn gyfan,
Deyrnas Satan hyd ei sail;
Dygodd filoedd du-felynion
Dan arwyddion Adda'r Ail;
Ac er cymaint am Waredydd
Dd'wedai 'n newydd yn ei oes,
Geill lefaru, mewn bro iachach,
Heddyw 'n gryfach am y groes.

31. Aed yn fuan dros yr hollfyd
Helaeth ddoniau'r Ysbryd Glan,
Dysged gwyn a du wynebau
Yn eu genau 'r newydd gân;
Am waredu teulu'r codwm
Byth y seinier anthem ber,
Nes cael canu mewn rhwyddineb
A chysondeb uwch y ser.